## PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 17 Hydref 2001 |
| **Amser:** | 2.00 i 4.30 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## ADRODDIAD TERFYNOL DRAFFT AR YR ADOLYGIAD PUM MLYNEDD O GYNGOR CEFN GWLAD CYMRU

### Diben

1. Ymgynghori â'r Pwyllgor ar Adroddiad Terfynol drafft yr Adolygiad Pum Mlynedd o Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Yn ôl Rheol Sefydlog 9.7, y pwyllgorau pwnc fydd yn adolygu sut y mae'r cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus yn eu maes. Ar ôl derbyn yr Adroddiad Terfynol a safbwyntiau'r Pwyllgor, bydd y Gweinidog dros yr Amgylchedd yn hysbysu'r Cabinet o ganfyddiadau'r Adroddiad ac wedyn yn cyhoeddi ymateb y Llywodraeth. Bwriedir cynnal trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn cyn cwblhau'r adolygiad yn derfynol.

### Argymhelliad

2. Dylai'r Pwyllgor wneud sylwadau ar ganfyddiadau'r Adroddiad Terfynol drafft yn Atodiad A. Nodir yr Amodau Gorchwyl yn Atodiad 2 o'r Adroddiad.

### Cefndir

3. Cyhoeddwyd yr Adolygiad Pum Mlynedd o Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) yn ffurfiol gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ym mis Medi 2000 ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor ynghylch yr Amodau Gorchwyl.

4. Cynhaliwyd yr adolygiad gan Ian Thomas, aelod o staff y Cynulliad. Arweiniodd cyfnod cyntaf yr Adolygiad at Adroddiad Dros Dro (gweler Atodiad 1 o'r Adroddiad Terfynol) a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor ym mis Mawrth. Yn dilyn hynny, cytunodd y Gweinidog dros yr

Amgylchedd a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau na fyddant yn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol ar argymhellion yr adolygiad nes i ail gyfnod yr adolygiad gael ei gwblhau. Byddai unrhyw newidiadau mawr yn y trefniadau presennol yn rhai tymor canolig i hir, gan y byddai angen cynllunio'n fanwl a gwneud deddfwriaeth sylfaenol. Dylai CCGC felly barhau i weithredu fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, o leiaf am y pum mlynedd nesaf.

5. Cafodd ail gyfnod yr adolygiad hefyd ei gomisiynu gan y Gweinidogion, sy'n cwmpasu effeithiolrwydd strategol a llywodraethu corfforaethol. Diwygiwyd yr amodau gorchwyl ar gyfer ail gyfnod yr adolygiad ar gais y Pwyllgor i gryfhau'r pwyslais ar ddatblygu cynaliadwy ac ar gydweithio a phartneriaethau.

**Yr Adroddiad Terfynol**

6. Amgaeir yr Adroddiad Terfynol drafft yn Atodiad A. Mae'n gwneud 49 o argymhellion, a gynhwysir yn y Crynodeb Gweithredol. Mae'n nodi canfyddiadau'r adolygydd ar ôl ymgynghori'n eang â chyfran-ddeiliaid a phartneriaid yn ogystal ag o fewn CCGC. Mae'n crybwyll nifer o faterion a godwyd yn yr Adroddiad Dros Dro ac yn cynnwys gwybodaeth y gofynnodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth amdani tra'n ystyried yr Adroddiad Dros Dro - nodyn ar y goblygiadau i ddewisiadau'r Ddeddf Hawliau Dynol (Para 9.6) a diagram yn dangos swyddogaethau'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a'r cysylltiadau rhyngddynt (Atodiad 9). Mae'r adroddiad yn casglu'n fras fod CCGC yn sefydliad a reolir yn effeithiol, sy'n ymateb i werthoedd arweiniol y Cynulliad ac sy'n hyrwyddo Agenda datblygu cynaliadwy'r Cynulliad.

7. Fel unrhyw sefydliad, gellir cryfhau rhai agweddau ar ei weithrediad. Mae'r adroddiad yn edrych ar gynllunio strategol, perfformiad a monitro CCGC; cyfathrebu o fewn CCGC a chyda sefydliadau o'r tu allan a'r berthynas waith rhwng CCGC a'r Cynulliad.

**Cydymffurfio**

8. Cynhaliwyd yr Adolygiad yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd ar gyfer Adolygiadau Pum Mlynedd. Yn ogystal â'i gyfraniad at yr Adolygiad, ymgynghorwyd â CCGC ar bob mater ffeithiol.

**Camau i'r Pwyllgor eu Cymryd**

9. Gofynnir i'r Pwyllgor wneud sylwadau ar yr Adroddiad terfynol drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Gweinidogion.

**Pwynt Cyswllt**

Yr Is-adran Cynllunio Ariannol.